

AIL AGOR MEHEFIN 29/06/20

TREFNIADAU YMARFEROL DYDDIOL – FERSIWN 2

Am fanylion o drefniadau ymarferol dyddiol gweler isod:

DIWRNODAU A BLYNYDDOEDD:

Bydd disgyblion o bob blwyddyn yn cael y cyfle i fynychu ar y diwrnodau canlynol:

DIWRNOD	BLWYDDYN
Llun	10 + 12
Mawrth	10
Mercher	7
Iau	9 + 12
Gwener	8

AMSERAU'R DYDD:

Bydd y diwrnod ysgol yn cael ei gwtogi, ond byddwn yn darparu'r amser dyddiol arferol ar gyfer cefnogi lles a dysgu ein disgyblion. Byddwn yn torri ein cyfnod cinio i 25 munud, gydag egwyl bore o 15 munud. Bydd grwpiau o ddisgyblion yn derbyn eu cyfnodau egwyl a chinio ar adegau gwahanol er mwyn osgoi gor gymysgu. Gweler yr amserau yma:

Amser	Gweithgaredd
08:15 - 08:45	Disgyblion yn cyrraedd
08:45 – 10:45	Bloc dysgu 1 (gan gynnwys amser egwyl wedi ei ddarwahanu)
10:45 – 13:00	Bloc dysgu 2 (gan gynnwys cinio wedi'i ddarwahanu)
13:00 – 14:45	Bloc dysgu 3
14:45	Disgyblion bysiau a cherdded yn gadael
15:00	Disgyblion â chludiant rhieni yn gadael

CLUDIANT YSGOL:

- Byddwn yn hysbsu pob rhiant yn cadarnhau bod lle i'w plentyn ar y bws.
- Bydd rhestr o ba ddisgyblion fydd yn cael eu codi ar ba arhosfan gan y gyrrwr.
- Bydd angen i bob disgybl ddangos ei bas bws.
- Ni fydd disgybl, sydd heb wneud cais ac heb dderbyn cadarnhad gan yr ysgol, yn derbyn lle ar gludiant ysgol.
- Byddwn yn rhannu canllawiau teithio ar y bysys ysgol, fydd yn cynnwys camau i;w cymryd i sicrhau pellhau cymdeithasol. Ni fydd caniatâd gan ddisgyblion i newid sedd ar y bws.
- Mae'n bwysig y bod rieni yn darllen rhain ac yn sicrhau bod ei plentyn yn dilyn y cyfarwyddiadau yma.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysoydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



CYRRAEDD Y SAFLE YN Y BORE:

Cerddwyr a Bysiau

- Byddwn yn cwrdd â'r plant wrth y glwyd a'r man gollwng arferol wrth iddynt gyrraedd ac yn sicrhau bod ein disgyblion yn cadw at ddisgwyliadau pellhau corfforol.
- Ni fydd y glwyd ar ran uchaf Heol Cadifor ar agor fel arfer i gerddwyr. Disgwylir i blant sydd yn cyrraedd ar hyd y ffordd yma fel arfer i gerdded ar hyd Heol Cadifor ac yna dod i fyny'r brif heol i'r ysgol.
- Ni fydd y drws i'r ffreutur ar agor ar gyfer mynediad.
- Disgwylir i bob disgybl gadw at ddisgwyliadau pellhau cymdeithasol wrth deithio i'r ysgol.

Ceir

- Bydd modd i rieni ollwng eu plant yn ddiogel yn un o feysydd parcio'r ganolfan hamdden yn hytrach na'r ardaloedd arferol. Bydd staff ar gael i gefnogi gyda hyn.
- Ni fydd caniatâd i rieni ollwng disgyblion yn y man gollwng arferol – dim ond y bysiau fydd yn gollwng disgyblion yma.

GADAEL Y SAFLE AR DDIWEDD Y DYDD YSGOL:

Cerddwyr a bysiau:

- Bydd y disgyblion sydd yn cerdded ac yn dal bysiau yn cael eu rhyddhau am 14:45.
- Bydd staff ar ddyletswydd i sicrhau bod disgyblion yn cynnal pellhau cymdeithasol ar bob adeg wrth adael.

Ceir:

- Byddwn yn rhyddhau disgyblion sydd yn derbyn lifft gan rieni / deulu am 15:00 fel nad yw pawb yn gadael y safle ar yr un pryd. Ni fydd modd i ddisgyblion sydd yn derbyn lifft adael yn gynt.
- Disgwylir i rieni barcio yn un o feysydd parcio'r Ganolfan Hamdden er mwyn gallu casglu eu plant yn ddiogel.

MYNEDIAD I'R ADEILAD:

- Disgwylir i bob disgybl fynd yn syth i olchi ei ddwylo wedi cyrraedd yr adeilad.
- I hwyluso'r trefniant diogelwch pwysig yma, trefnir y bydd pob disgybl yn dod i mewn i'r adeilad trwy'r fynedfa wrth y labordai Gwyddoniaeth.
- Bydd disgwyl i bob disgybl fynd i olchi eu dwylo'n drylwyr yn y Labordai Gwyddoniaeth, cyn mynd i'w hystafelloedd dysgu.
- Bydd staff ar gael i gynorthwyo gyda hyn.

AMSERLEN PYNCAU:



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR
MEWN POBL** | Aur



- Gweler yr [amserlen bras ar ein safwe](#) am ba pynciau bydd eich plentyn yn astudio yn ystod y diwrnod maent yn mynychu.
- Bydd yr athrawon yn cylchdroi o gwmpas y grwpiau dysgu gwahanol.
- Bydd disgyblion mewn grwpiau gwahanol yn derbyn gwersi mewn pynciau ar amserau gwahanol yn ystod y dydd felly.

YSTAFELLOEDD A GRWPIAU DYSGU:

- Bydd disgyblion yn cael gwybod eu grwpiau dysgu ar y bore cyntaf.
- Bydd disgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn aros yn yr grŵp dysgu a'r un ystafell drwy'r dydd gyda'r athrawon yn newid.
- Bydd disgyblion 9 a 10 yn derbyn 2 floc dysgu yn yr un grŵp pwnc craidd ac yna newid ar gyfer bloc dysgu opsiynol yn y prynhawn. Mi fydd gwersi; prynhawn ewn ystafelloedd ni ddefnyddir yn y bore.
- Bydd ystafelloedd gwersi bl12 yn cael eu glanhau ar ol pob gwers.
- Bydd lle yn Neuadd cilfwnnwr, gyda staff, i ddisgyblion y 6ed weithio yn ystod gwersi rhydd. Ni fydd mynediad i floc y 6ed.
- Bydd disgyblion yn aros yn grwpiau dysgu yma pob tro byddant yn dod i'r ysgol dros y dair wythnos nesaf.

EGWYL A CHINIO:

- **Ni fyddwn yn darparu byrbrydau na chinio o ffreutur yr ysgol. Felly, bydd disgwyl i bob disgybl ddod â byrbrydau iachus a phhecyn bwyd ei hun bob tro y bydd yn mynychu'r ysgol (gan gynnwys disgyblion y rhieni sydd yn weithwyr allweddol ar gyfer y gwasanaeth gwarchod argyfwng).**
- **Ni fydd caniatâd i rhannu bwyd gyda disgyblion arall.**
- Bydd 4 egwyl a 4 cinio gwahanol o ran amser.
- Bydd disgyblion yn aros yn eu grŵp dysgu ar gyfer cinio, gydag aelod o staff.
- Byddant yn cael eu tywys i'r labordai er mwyn golchi dwylo, cyn mynd allan i'r awyr iach i fwyta ac ymlacio, os fydd tywydd yn caniatâu.
- Bydd cyfleoedd addas gan bob disgybl i fwyta yn ystod yn dydd, ond ni fydd caniatâd rhannu bwyd gyda disgyblion eraill. Bydd disgwyl bod pob disgybl yn dilyn arferion hylendid dwylo cyn ac ar ôl bwyta.

GWISG YSGOL:

- Nid oes disgwyl i ddisgyblion ddod yn eu gwisg ysgol yn ystod y tymor yma.
- Gofynnwn i rieni sicrhau bod ein disgyblion yn gwisgo dillad glân ar bob diwrnod maent yn mynychu'r ysgol, er mwyn lleihau'r risg o ledaenu.

OFFER YSGOL:

- Bydd disgwyl i bob disgybl ddod ag offer addas ar gyfer dysgu mewn ysgol ar draws eu pynciau e.e. offer ysgrifennu, offer Mathemateg yn eu bag personol eu hun.
- Ni fydd caniatâd i ddisgyblion rhannu offer yn yr ysgol.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

DYFAIS DIGIDOL:

- Mae caniatâd gan ddisgyblion (a byddwn yn eu hannog) i ddod â'r ddyfais ddigidol sydd ganddyn nhw ar gyfer gweithio o bell i'r ysgol ar y diwrnodau maent i mewn.
- Byddwn yn darparu mynediad i'r wê ar gyfer dysgu.
- Bydd yn ein caniatâu i ddatblygu ein model o ddysgu cyfunol, fydd mor allweddol i ddysgu pob un o'n disgyblion yn ystod y cyfnod yma ac ym mis Medi.
- Cyfrifoldeb y disgybl fydd i sicrhau diogelwch ei ddyfais tra yn yr ysol ac ni fydd caniatâd gan ddisgyblion i rannu dyfeisiau yn yr ysgol.
- Gweler y cytundeb dod a dyfais eich hun i'r ysgol [yma](#).

TAI BACH:

- Bydd staff ar ddyletswydd y tu allan i'r tai bach yn ystod pob egwyl a chinio.
- Dim ond 3 disgybl fydd yn cael mynychu tŷ bach ar un adeg (gan gofio y bydd egwyl a chinio ar amserau gwahanol).
- Disgwylir i ddisgyblion olchi eu dwylo cyn ac ar ôl defnyddio'r tŷ bach i sicrhau'r safonau uchaf o lendid.
- Bydd y tai bach yn cael eu glanhau ar ôl pob egwyl a chyfnod cinio.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL

